



Annwyl Gwsmer

## **Penderfyniad yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus lleol**

**Swyddfa Bost Clydach Vale  
39 Stryd y Wern, Tonypany, CF40 2BN**

Rwy'n ysgrifennu i gadarnhau ein bod, wedi cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol ac adolygiad, wedi penderfynu bwrw ymlaen â symud y Swyddfa Bost uchod i Siop Clydach, 19 – 20 Heol Clydach, Tonypany, CF40 2BD, lle caiff ei rhedeg fel un o'n canghennau lleol eu natur gan bartner manwerth.

Hoffwn ddiolch i bawb a neilltuodd amser i roi sylwadau a gwybodaeth inni. Bu'r holl adborth a gawsom yn help i ni ddeall barn cwsmeriaid yn well a chafodd hyn ei ystyried, ynghyd â'r holl ffactorau eraill, wrth i ni wneud ein penderfyniad. Cafodd crynodeb o'r adborth ei amgáu, ynghyd â thaflen wybodaeth sy'n rhoi manylion pellach am y gangen newydd.

Ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r ymatebion a gafwyd, rydym yn ffyddiog o hyd y bydd cynllun a lleoliad y gangen newydd yn dal i ateb gofynion y cwsmeriaid ac yn darparu gwasanaeth rhagorol, yn ogystal â diogelu hyfywedd hirdymor gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y gymuned leol.

Bydd y gangen bresennol yn cau am 12:00 ddydd Sadwrn 20 Ionawr 2024, a bydd y gangen newydd yn agor yn Siop Clydach am 13:00 ddydd Llun 22 Ionawr 2024. Os bydd rhaid newid y dyddiadau hyn, am resymau na ellir eu rhagweld ar hyn o bryd, bydd posteri'n cael eu gosod yn y gangen er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.

Yn ystod y cyfnod trosglwyddo, gall cwsmeriaid ddefnyddio unrhyw gyfleusterau Swyddfa'r Post eraill sy'n gyfleus. Isod, fe welwch fanylion am ddwy gangen Swyddfa'r Post gyfagos:

- Swyddfa Bost Tonypany, 38-40 Stryd Dunraven, Tonypany, CF40 1AL
- Swyddfa Bost Trealaw Isaf, 319 Heol Brithweunydd, Tonypany, CF40 2NY

Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd ar H Ymgynghori Swyddfa'r Post yn [postofficeviews.co.uk](https://postofficeviews.co.uk)

Mae'r cyfathrebiad hwn yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad sy'n ymwneud ag ymgynghori ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

*Sarah Cottrell*

**Sarah Cottrell  
Rheolwraig Darpariaeth y Rhwydwaith  
Swyddfa'r Post Cyfyngedig**

[comments@postoffice.co.uk](mailto:comments@postoffice.co.uk)

[postofficeviews.co.uk](https://postofficeviews.co.uk)

FREEPOST Your Comments

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.

Registered Office: 100 Wood Street, London EC2V 7ER.

Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.

Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.

Swyddfa Gofrestredig: 100 Wood Street, Llundain EC2V 7ER.

Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig | Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

**postoffice.co.uk**

I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).

## Atodiad A

### Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol

**Dechreuodd yr ymgynghoriad** ddydd Gwener 6 Hydref 2023  
**Daeth yr ymgynghoriad i ben** ddydd Gwener 17 Tachwedd 2023

#### Ymatebion o'r ymgynghoriad

- 54 ymateb gan gwsmeriaid

#### Cyfarfodydd

Cyfarfu cynrychiolwyr Swyddfa'r Post a rhanddeiliad lleol ddydd Gwener 10 Tachwedd 2023.

#### Y prif faterion a godwyd

- Pellter a Pharcio
- Lle y tu mewn a Hygyrchedd
- Cownter Gwasanaeth
- Hyfforddiant Staff

#### Ymateb i'r materion a godwyd

##### Pellter a Pharcio

Bydd y gangen newydd ar yr un heol, tua 650 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tir amrywiol ei natur. O ran cerdded i'r lleoliad newydd, mae yna balmentydd mewn cyflwr da bob cam o'r gangen presennol.

Er ein bod wedi ystyried rhai sylwadau am barcio yng nghyffiniau'r lleoliad newydd, mae'n deg dweud fod hyn yn broblem gyffredinol mewn sawl lleoliad ar draws y DG. Er bod y lle sydd ar gael i barcio y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Swyddfa'r Post Cyfyngedig, gwnaed adolygiad pellach ynghylch parcio a gallwn gadarnhau y bydd cwsmeriaid yn eu cerbydau eu hunain yn gallu parcio y tu allan i'r gangen newydd ac ar hyd Heol Clydach. Felly, rydym yn fodlon fod digon o le i barcio yng nghyffiniau'r gangen newydd ar gyfer cwsmeriaid a fydd yn defnyddio'r Swyddfa Bost newydd.

##### Lle y tu mewn a Hygyrchedd

Rydym yn sylweddoli fod Swyddfa'r Post yn chwarae rhan bwysig ym mywydau ein cwsmeriaid, yn enwedig y bobl hŷn a phobl anabl, ac rydym am wneud ein gwasanaethau mor hygyrch â phosibl. Mae'n dda gennym gadarnhau y bydd ramp wrth y fynedfa i'r Swyddfa Bost newydd. Y tu mewn, bydd dolen glyw a lle i gadair olwyn.

Bydd tu mewn y gangen newydd yn bodloni gofynion Swyddfa'r Post, gan wneud yn siŵr fod digon o le i gynnal gwasanaeth Swyddfa'r Post ochr yn ochr â'r gwasanaeth manwerth, a hynny mewn man penodol. Byddwn yn cydweithio'n agos â'r postfeistr wrth gynllunio'r tu mewn i'r adeilad er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r lle yn y siop a sicrhau bod modd mynd i mewn i a symud o gwmpas yr adeilad yn ddirwystr. Bydd peth celfi a ffitiadau'n cael eu symud neu'n cael eu cymryd oddi yno er mwyn gwneud yn siŵr nad oes unrhyw rwystr wrth fynd i mewn i'r adeilad a bod y fynedfa, y llwybrau siopa a'r man ciwio yn ddirwystr a bod digon o le i gwsmeriaid a chadair olwyn symud o gwmpas heb anhawster.

### **Cownter Gwasanaeth**

Bydd y Swyddfa Bost newydd mewn man penodol yn y siop a bydd un man gwasanaeth wrth gownter y siop. Bydd hyn y golygu gall cwsmeriaid ddelio â dewis o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post yr un pryd ag eitemau'r siop. Byddwn yn cydweithio â'r postfeistr newydd ac yn cadw llygad ar safon y gwasanaeth i wneud yn siŵr ei fod yn foddhaol a bod digon o staff ar gael i wasanaethu cwsmeriaid yn ystod cyfnodau prysur.

### **Hyfforddiant Staff**

Mae safon yr hyfforddiant i'r staff yr un mor uchel ag yw yn ein holl ganghennau. Mae hyn yn cynnwys parchu cyfrinachedd cwsmeriaid a glynu wrth ein camau diogelwch llym er mwyn diogelu staff a chwsmeriaid. Hefyd, bydd unrhyw staff a fydd yn ymwneud â thrafodion Swyddfa'r Post wedi cael eu hyfforddi ynghylch sut i gydymffurfio mewn sawl maes, gan gynnwys Diogelu Data a Thrafod Post.

## Atodiad B

### Gwybodaeth Gryno am Swyddfa Bost Clydach Vale

Siop Clydach, 19 - 20 Heol Clydach, Tonypany, CF40 2BD

#### Yr oriau agor newydd

Llun–Gwen	09:00 - 18:00
Sad	09:00 - 14:00
Sul	Ar Gau

**Mae yna adegau pan fydd rhaid newid oriau agor cangen.**  
**Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar ein gwefan**  
[www.postoffice.co.uk/branch-finder](http://www.postoffice.co.uk/branch-finder)

#### **Cynhyrchion a Gwasanaethau**

Bydd dewis tebyg o gynhyrchion a gwasanaethau ar gael o hyd, ac eithrio'r Loteri Genedlaethol ac Yswiriant Teithio ar Gais.

#### **Mannau Gwasanaeth**

Bydd man gwasanaeth Swyddfa'r Post wrth gownter y siop.

#### **Mynediad**

Bydd gan yr adeilad newydd ramp bach wrth y fynedfa.

Y tu mewn, bydd dolen glyw a lle i gadair olwyn.

#### **Cyrraedd yno**

Mae'r gangen newydd tua 650 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tir amrywiol ei natur.

Bydd modd parcio wrth ymyl y ffordd y tu allan i'r gangen newydd ac ar hyd Heol Clydach.

#### **Manwerth**

Siop gyfleustra.

---

**Y gwasanaethau ar gael yn Swyddfa Bost Clydach Vale**

**I gael gwybod a yw cynnyrch ar gael, ffoniwch 03457 22 33 44.**

**Mae manylion am werth uchaf trafodion ar gael gan y sawl sy'n rhedeg y Swyddfa Bost.**

	<b>Y gangen newydd</b>								
<b>Post</b>									
Post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth	✓								
Stampiau, llyfrau stampiau (Dosbarth 1af: 6 a 12 yn unig, 2il Ddosbarth: 12 yn unig)	✓								
Stampiau arbennig (dyroddiad y Nadolig yn unig) a labeli post	✓								
Signed For	✓								
Signed Delivery	✓								
Dychweliadau siopa o gartref	✓								
Parseli mewndirol bach, cymedrol a mawr	✓								
Parseli Express a chontract	<b>Express 24 &amp; 48</b>								
Post Lluoedd Prydain (BFPO)	✓								
Llythyrau a chardiau post Rhyngwladol (yn cynnwys Tracked a Signed)	✓								
Parseli rhyngwladol hyd at 2kg a phapurau printiedig hyd at 5kg	✓								
Parseli Parcelforce Worldwide Rhyngwladol	✗								
Eitemau i'r Deillion (mewndirol a rhyngwladol)	✓								
Gwasanaeth ailgyfeirio'r Post Brenhinol	✓								
Local Collect	✓								
Drop & Go	✓								
<b>Codi arian, adneuo a thaliadau</b>									
Bancio Personol a Busnes: codi arian, adneuo ac ymholiadau balans wrth ddefnyddio cerdyn. Hefyd, adneuo sieciau mewn amlen a slipiau adneuo â chod bar	✓								
Archebion Post	✓								
Moneygram	✓								
Rhoi newid	✓								
Talu biliau (cerdyn neu god bar)	✓								
Adlenwi allweddi	✓								
<b>Gyrru</b>									
Treth cerbydau	✗								
<b>Teithio</b>									
Arian Teithio wedi'i archebu o flaen llaw	✓								
Arian Teithio ar gais	✗								
Atgyfeirio Yswiriant Teithio	✓								
Yswiriant Teithio ar gais	✗								
Gwirio ac Anfon Pasbort	✗								
<b>Talu â siec</b>									
Adlenwadau ffonau symudol ac E-dalebau	✓								
Terfynell y Loteri Genedlaethol	✗								
<b>Talu â siec</b>									
Mae cynhyrchion wedi eu nodi â ✗ ar gael yn <b>Swyddfa Bost Tonypany</b> , 38-40 Stryd Dunraven, Tonypany, CF40 1AL	<table border="0"> <tr> <td>Oriau agor:</td> <td></td> </tr> <tr> <td>Llun – Iau</td> <td>09:00 – 20:00</td> </tr> <tr> <td>Gwen, Sad</td> <td>09:00 – 20:30</td> </tr> <tr> <td>Sul</td> <td>10:00 – 19:00</td> </tr> </table>	Oriau agor:		Llun – Iau	09:00 – 20:00	Gwen, Sad	09:00 – 20:30	Sul	10:00 – 19:00
Oriau agor:									
Llun – Iau	09:00 – 20:00								
Gwen, Sad	09:00 – 20:30								
Sul	10:00 – 19:00								

# **Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)**

Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori - [postofficeviews.co.uk](http://postofficeviews.co.uk)

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilyniir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **Ymgynghori** – pan fyddwn yn chwilio am ymateb i argymhellion cyn gwneud penderfyniad ynghylch:

- Cau cangen Swyddfa'r Post yn barhaol<sup>1</sup>
- Adleoli cangen Swyddfa'r Post yn barhaol (gan gynnwys masnachfreintio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol i safle newydd).

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus lleol dros gyfnod o chwe wythnos<sup>2</sup> er mwyn rhoi gwybod i gynrychiolwyr etholedig lleol<sup>3</sup> Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol<sup>4</sup> am yr argymhelliad. Bydd yr wybodaeth hon ar gael hefyd ar-lein ac ar gyfer cangen â Rheolaeth Uniongyrchol cyflwynir datganiad newyddion i'r cyfryngau lleol. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrdau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.).

Bydd yr ymgynghoriad yn golygu gofyn cwestiynau penodol pan fyddwn yn dymuno cael adborth ynghylch mynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post a bydd yn cadarnhau dyddiad y newid os taw'r penderfyniad yw i fwrw ymlaen. Byddwn yn rhoi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau yn ogystal â mynediad i'r gangen newydd a'r tu mewn.

Rydym yn croesawu pob adborth ac mae'r holl ffactorau isod yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniad; disgwylir y gwneir y penderfyniad hwnnw o fewn pedair wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad:

- Mynediad cwsmeriaid i mewn i a'r tu mewn i'r gangen /canghennau newydd neu amgen, gydag ystyriaeth benodol i ddefnyddwyr sydd yn agored i niwed
- Unrhyw faterion cymunedol lleol a allai gael eu heffeithio gan yr argymhelliad neu ddylanwadu arno.

Ar ddiwedd y broses ymgynghorol byddwn yn ysgrifennu at gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad (os yw hynny'n ymarferol) er mwyn cadarnhau ein penderfyniad a rhoi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb clir i bob un. Bydd yr wybodaeth ar gael ar-lein ac yn y gangen (pan fo hynny'n bosibl).

**Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon; cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.**

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilyniwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hymateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw weithredu ynghylch y gŵyn).

**Postofficeviews. co.uk.**

**Comments@postoffice.co.uk**

**FREEPOST Your Comments**

**Ffoniwch: 03452 66 01 15**

**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

<sup>1</sup> Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darpariaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

<sup>2</sup> Os yw'r ymgynghoriad yn cynnwys mwy na phedair wythnos ym mis Gorffennaf yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon neu fwy na phedair wythnos ym mis Awst yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn estyn y cyfnod am un wythnos

galendr. Ni fyddwn yn dechrau unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus lleol yn ystod y bythefnos sydd yn cynnwys gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

<sup>3</sup> Mae cynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf.

<sup>4</sup> Yr elusennau dethol yw Cyngor ar Bopeth, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Anogir y sawl y cyfeirir atynt yn <sup>3</sup> a <sup>4</sup> uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai fod â diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.